



Ymateb i gais y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith am farn gychwynnol ar Gynllun Sero Net Cymru Llywodraeth Cymru

RWE Renewables UK Ltd. (RWE) yw'r cynhyrchedd trydan mwyaf yng Nghymru a'r buddsoddwr mwyaf mewn ynni adnewyddadwy, sydd ar hyn o bryd yn gweithredu pedair fferm wynt ar y tir¹ a thair fferm wynt alltraeth², a nifer o weithfeydd hydro. Mae RWE hefyd yn gweithredu gorsaf bŵer Tyrbin Nwy Cylch Cyfun ym Mhenfro, sef yr un fwyaf effeithlon yn y DU. Mae gennym ni biblinell o brosiectau newydd sy'n cael eu datblygu ledled Cymru ym maes ynni alltraeth, ar y tir, storio batris a hydrogen.

Rydym ni'n croesawu cyhoeddi Cynllun Cymru Sero Net ac yn credu ei fod yn gasgliad defnyddiol o bolisiâu a chamau gweithredu. Rydym ni'n cydnabod penderfyniad Llywodraeth Cymru (LIC) i gyflawni ei hymrwymadau cyfreithiol, a'r ymdeimlad cynyddol o frys.

Datganiad Uchelgais: Erbyn 2025, bydd capasiti ynni adnewyddadwy ychwanegol o 1GW yn cael ei osod

Polisi 22: Cynyddu datblygiadau ynni adnewyddadwy ar y tir trwy ein trefn gynllunio

1. Mae RWE yn cefnogi'r ymrwymiad i gynyddu cynhyrchiant trydan o ffynonellau carbon isel ac adnewyddadwy a byddai'n annog Llywodraeth Cymru i osod targedau uchelgeisiol sydd wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'r targed troswaol i gyflawni sero net erbyn 2050.
2. Fodd bynnag, hoffai RWE eglurder ar sut y gellir cyflawni'r uchelgais o 1GW o ystyried piblinell gyfredol y prosiect ac oedi yn y cysylltiadau â'r grid.

Datganiad Uchelgais: O 2021 ymlaen ni fydd unrhyw gynhyrchu tanwydd ffosil yn cael ei adeiladu o'r newydd yng Nghymru. Bydd yr holl gynhyrchu nwy heb systemau rheoli carbon cyfredol yn cael ei symud o'r system erbyn 2035. Bydd unrhyw gyflenwad ychwanegol yn cael ei fodloni o'r pwerdy sydd wedi'i ddatgarboneiddio o 2035 fan bellaf.

Polisi 17: Lleihau allyriadau o hylosgi tanwydd ar gyfer cynhyrchu trydan

3. Rydym ni'n cytuno bod angen i'r mwyafrif o'r capasiti cynhyrchu newydd fod yn garbon isel neu sero carbon. Fodd bynnag, bydd angen trydan a gynhyrchir o nwy naturiol heb systemau rheoli carbon yn ystod y newid i sero net wrth i ni ddatblygu a defnyddio'r dewisiadau amgen carbon isel a all efelychu ei rôl yn y system drydan. Bydd hyn yn sicrhau bod y system yn parhau i fod yn ddibynadwy ac yn fforddiadwy.
4. Felly ni fyddem yn cefnogi y dylid symud yr holl orsafoedd nwy heb systemau rheoli carbon o'r system erbyn 2035 - mae hon yn strategaeth artiffisial, gostus a llawn risg heb sicrwydd digonol y bydd technolegau amgen yn cael eu defnyddio mewn pryd:
 - a. Eisoes bu gostyngiadau mawr mewn allyriadau o gynhyrchu tanwydd ffosil, a fydd yn parhau wrth i gynhyrchu ynni di-garbon gynyddu.
 - b. Mae gweithfeydd sy'n defnyddio tanwydd ffosil yn cynhyrchu i sicrhau diogelwch y cyflenwad, gan lenwi'r bwlch rhwng y galw a chynhyrchu sero carbon. Mae'r holl ragamcanion ynni, gan gynnwys gwaith y CCC, yn nodi y bydd angen cynhyrchu nwy i mewn i'r 2030au, ac mae rhai rhagamcanion hyd yn oed yn gweld yr angen am rai pwerdai nwy heb systemau rheoli carbon sy'n rhedeg yn anaml iawn o hyd er mwyn dibynadwyedd fforddiadwy yn 2050 - gyda'u hallyriadau hynod isel yn cael eu gwrthbwyso gan allyriadau negyddol mewn rhannau eraill o'r system bŵer neu'r economi ehangach.
 - c. Er ein bod yn cefnogi uchelgais y dylid cwrdd â chyflenwad ychwanegol (cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol ac yn fforddiadwy) o bwerdy wedi'i ddatgarboneiddio cyn gynted â phosibl, nid yw'r polisiâu a'r gefnogaeth ar

¹ Gorllewin Coedwig Brechfa (57.4MW) (Sir Gaerfyrddin); Coedwig Clocaenog (96MW) (Sir Ddinbych/Conwy); Mynydd y Gwair (32.8MW) (Abertawe); Rhyd y Groes (7.2MW) (Ynys Môn)

² Gwynt y Môr (576MW); Gwastadeddau'r Rhyl (90MW); Gogledd Hoyle (60MW) pob un oddi ar arfordir gogledd Cymru.

waith ar hyn o bryd i sicrhau bod digon o gapasiti amgen heb garbon. Hefyd, ni ddeallir fforddiadwyedd uchelgais o'r fath eto, ac felly dim ond pan fydd hyder mawr y gellir, ac y gwneir, y dewisiadau amgen hyn ar benderfyniadau o gael gwared ar gapasiti heb garbon.

ch. I **grynhoi**, rydym ni'n gweithredu mewn un system drydan yn y DU - gallai lleihau oriau rhedeg pwerda nwy heb systemau rheoli carbon, neu orfodi eu cau, heb allu amgen digonol fygwth dibynadwyedd a diogelwch y system wrth gynyddu costau defnyddwyr yn ddiangen ac yn sylweddol.

Polisi 21 – Cynllunio darparu'r grid trydan a nwy sydd ei angen ar Gymru

5. Mae RWE yn croesawu'r fenter Weinidogol ddiweddar i ddod â gweithredwyr rhwydwaith, Ofgem a LIC ynghyd i weithio ar ddatrysiad grid strategol. Mae hwn bellach, yn fwy nag erioed, yn fater brys y mae angen mynd i'r afael ag ef yn ddi-oed - mae angen i waith LIC ar hyn gael ei wneud yn drylwyr. Dylai LIC hefyd gynnwys generaduron presennol, datblygwyr ynni adnewyddadwy a defnyddwyr mawr yn y broses hon.
6. Mae angen i LIC sicrhau bod galw am electrolyser a datgarboneiddio diwydiannol hefyd yn cael ei ystyried.
7. Ni ddylai Strategaethau Ynni Rhanbarthol gyfyngu. Mae mewnforio ac allforio trydan o fewn a rhwng rhanbarthau (a ledled y DU a thu hwnt) yn hollbwysig, yn hytrach na chydbwysio cyflenwad a galw ar lefel leol yn unig.

Polisi 24 – Tystiolaeth, cynllunio a thrwyddedu morol: cefnogi'r defnydd o ynni adnewyddadwy alltraeth a morol

8. Un o'r risgiau mwyaf i ddefnyddio ynni adnewyddadwy morol yw nad oes amserlenni pendant ar gyfer cydsynio a rhoi trwyddedau morol.
9. Mae RWE yn croesawu'r cynnig i symleiddio prosesau cydsynio gydag amserlenni byrrach. Bydd sicrhau awdurdodau cynllunio lleol cadarn sydd ag adnoddau da ac ymgynghoreion statudol yn hanfodol i gyflawni hyn.

Polisi 25 – Arloesi mewn technoleg ynni adnewyddadwy newydd i yrru datgarboneiddio cyflymach a dyfnach a chefnogi'r economi werdd

10. Nid yw'n ymddangos bod Cynllun Cymru Sero Net yn cefnogi hydrogen glas ar gyfer datgarboneiddio pwerdai ond mae'n cefnogi Dal, Defnyddio a Storio Carbon a hydrogen gwyrdd. Er mwyn cynorthwyo'r trosglwyddiad i hydrogen gwyrdd ac i alluogi Dal, Defnyddio a Storio Carbon (a chludo), efallai y bydd angen i hydrogen glas fod yn rhan o'r datrysiad, hyd yn oed os gallai fod yn rôl dros dro.
11. Mae'n bwysig bod LIC yn glir ynghylch pa rôl y mae'n ei rhagweld ar gyfer hydrogen glas mewn pwerdai a datgarboneiddio diwydiannol.

Polisi 26 – Datblygiadau ynni dan berchnogaeth leol i sicrhau enillion economaidd i Gymru

12. Mae RWE wedi ymrwymo i sicrhau'r buddion mwyaf posibl i Gymru mewn ffordd briodol, wedi'u paru â mathau penodol o dechnoleg. Credwn fod modelau buddion a pherchnogaeth leol/a rennir yn gweithio orau ar gyfer gwynt ar y tir ac ynni solar ac rydym ni'n datblygu cynigion perchnogaeth leol/gymunedol ar ein prosiectau gwynt ar y tir Coedwig Alwen a Phen March. Mae gwynt ar y môr yn fwy priodol ar gyfer buddion lleol na pherchnogaeth o ystyried maint a risg buddsoddi, ond mae'n cynnig buddion ar raddfa fwy trwy gymell buddsoddiad, cadwyn gyflenwi leol a swyddi (gweler Polisi 27).
13. Gellid cyflawni dull partneriaeth gyhoeddus/breifaf ar Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru. Rydym ni'n annog LIC i gyflymu argaeledd y tir hwn ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy ar y tir fel mater o frys, gan ddefnyddio dull Forestry Land Scotland fel templed i symud ymlaen.

Polisi 27 – Gwneud y gorau o'r manteision i Gymru o brosiectau seilwaith a weithredir yn fasnachol yng Nghymru

14. Mae RWE yn cefnogi'r uchelgais hon ac yn cefnogi (ac wedi helpu i lunio) meddylfryd Llywodraeth Cymru yn y meysydd hyn.
15. Ar gyfer prosiectau gwynt ar y môr, credwn y gall y budd mwyaf i Gymru ddod o ffocws ar ehangu galluoedd gweithgynhyrchu, cadwyn gyflenwi a phorthladdoedd ac isadeiledd.
16. Yn dilyn astudiaethau ar alluoedd y gadwyn gyflenwi - ac yn gysylltiedig â Bargen Sector Gwynt ar y Môr y DU a datblygu clystyrau'r gadwyn gyflenwi - mae RWE yn annog LIC i gefnogi'r Gynghrair Ynni Alltraeth yn fwy ffurfiol trwy gyllid ac adnoddau lleol i fanteisio'n llawnach ar y buddion y gall y clystyrau hyn eu cynnig.